

# Dechrau Blwyddyn

## Darlleniad: Salm 33

---

---

Arglwydd ein Duw, diolchwn i ti am gael camu i flwyddyn newydd arall. Wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn a aeth heibio, diolchwn i ti am dy gariad a'th ofal trosom. Bu i ni fwynhau dy fendithion bob dydd, 'bob bore y deuant o'r newydd, mawr yw dy ffyddlondeb'. Cynorthwya ni i werthfawrogi dy roddion, ac i gydnabod mai ynot ti yr ydym 'yn byw, yn symud ac yn bod'. Cydnabyddwn inni ar brydiau dy anghofio a throi cefn arnat, ond ni wnest ti erioed ein hanghofio ni na throi cefn arnom. Cynorthwya ni yn ystod y flwyddyn hon i fod yn fwy gwerthfawrogol o'th roddion, yn fwy ffyddlon i ti, ac i'n cysegru ein hunain yn llewyrch yn dy waith ac mewn gwasanaeth i eraill.

A chan gofio profiadau ddoe, fe wynebwn ni yfory yn hyderus gyda thi. Gwyddom y byddi eto yn trugarhau wrthym, ac yn gofalu amdanom.

‘Er maint y daioni a roddi mor hael,  
Tu cefn i'th drugaredd mae digon i'w gael;  
Llawenydd yw cofio, er cymaint a roed,  
Fod golud y nefoedd mor fawr ag erioed.’

Gweddïwn am dy fendith ar y flwyddyn hon. Gweddïwn am iechyd i fwynhau breintiau bywyd. Gweddïwn am gyfiawnder a heddwch yn ein byd. Gweddïwn dros y rhai sydd mewn awdurdod, dros arweinyddion byd, ar iddynt lywodraethu yn unol â'th ewyllys di. Gweddïwn dros ein cyd-Gristnogion, gan gofio'n arbennig am y rhai sy'n cael eu herlid oherwydd eu ffydd. Gweddïwn dros yr Eglwys, ar i'r Eglwys fod yn offeryn effeithiol yn dy law i gario efengyl Iesu Grist i bob cwr o'n byd.

Gweddïwn y byddwn ninnau fel dy ddilynwyr yn tyfu i fod yn Gristnogion aeddfetach, fel y gall eraill weld Iesu ynom. Gweddïwn am i ti dywallt dy Ysbryd Glân i'n calonnau, oherwydd

---

---

## GWEDDIAU CYHOEDDUS

---

---

heb rym dy Ysbryd ni allwn wneud dy waith.

Gwared ni, ein Tad, rhag bod yn hunanol gyda'th roddion. Mae dy fendithion di i'w rhannu gyda phawb o bobl y byd. Gweddïwn y byddwn fel unigolion yn barotach yn ystod y flwyddyn hon i rannu, ac y bydd llywodraethau'r byd yn cydweithio fwyfwy â'i gilydd i ddileu newyn a thlodi, ac i ddarparu ar gyfer yr amddifad, y digartref a'r diwaith. Arglwydd, paid â gadael inni fynd 'heibio o'r ochr arall'; boed inni dosturio ac ymgeleddu.

Ein Tad, cysegrwn ein hunain o'r newydd i ti, ac i waith dy Eglwys. Gwna ni'n well disgyblion i Iesu Grist.

‘O na allwn garu'r Iesu  
Yn fwy ffyddlon, a'i wasnaethu;  
Dweud yn dda mewn gair amdano,  
Rhoi fy hun yn gwbl iddo.’ Amen.

*Ifan Roberts*